Action Camp
Y Prosiect Preswyl Gorau

Wyt ti rhwng 9 ac 16 oed?

Buaset ti'n hoffi mynd ar wersyll tri diwrnod rhwng 21ain – 23ain Gorffennaf, yna cael cyfle i fod yn rhan o brosiect cyffrous yn Llyn Fferm Hafren ar y 5 dydd Iau canlynol?

Digwyddiad gwersylla tri diwrnod yw Action Camp 2009 i bobl ifanc ledled Cymru. Mae'n rhoi cyflwyniad i rai o'r materion pwysig sy'n wynebu ein planed a'n poblogaeth mewn ffordd hwylus a chyffrous. Byddwn yn gwersylla ar safle Kiln Park sy'n perthyn i gwmni Haven yn Ninbych y Pysgod, lle ceir cyfle i gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau hwylus sy'n ymwneud â'n planed, yn ogystal â phrofi'r cyfleusterau cyffrous sydd ar gael yn y parc. Gan ein bod ni'n gwersylla, bydd pabell yn cael ei darparu, ond bydd angen i ti ddod â sach cysgu a dillad gwrth-ddŵr gyda thi!

Ar y diwrnod 1af byddwn yn teithio lawr i Ddinbych y Pysgod ac yna cawn gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau cyffrous gyda Thîm Action Camp. Ar yr 2ail ddiwrnod, cawn frecwast i gychwyn y diwrnod ac yna llawer mwy o weithgareddau ac amser yn Kiln Park. Yn olaf, ar y 3ydd diwrnod, byddwn yn treulio'r dydd naill ai yn Oakwood neu Heatherton cyn cychwyn ar ein ffordd adref.

Ar ôl dychwelyd i'r Trallwng , byddwn yn parhau i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd ar yr Action Camp, yn ein tref ni. Cewch gyfle i weithio gydag aelodau eraill o'r tîm ar nifer o brosiectau gwahanol megis gwneud biniau compost pren, cymryd rhan mewn prosiect celf, gwneud gwaith cynnal a chadw, a chynllunio diwrnod agored a helpu rhedeg y diwrnod y Llyn Fferm Hafren.

Mae'r prosiect hwn yn edrych yn wych, a chewch gyfle i ddangos eich sgiliau i'r gymuned yn y Diwrnod Agored. Ein gobaith yw gorffen y prosiect gyda noson o Ddathlu/Gwobrwyo. Cynhelir y dyddiau prosiect rhwng 10am – 4pm ar 30ain Gorffennaf, 6ed, 13eg, 20fed a 27ain Awst.

Y gost i fynd ar y gwersyll yw £30 (a bydd angen arian poced). Mae'r pris yma'n cynnwys llety, bwyd (ar wahân i bryd o fwyd ar y ffordd adref), gweithgareddau, Gwobr a Thystysgrif ASDAN, tocyn adloniant a mynediad i naill ai Oakwood neu Heatherton.
Does dim cost i'r prosiect olynol yn y Trallwng – dim ond bocs brechdanau fydd ei angen bob dydd.
Ar ôl gorffen y prosiect cyfan, telir £15 i gyfrif gydag Undeb Credyd Robert Owen yn dy enw di.
Os hoffet ti gael d'ystyried i gymryd rhan yn y prosiect cyffrous hwn, dylid cwblhau'r ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd atom erbyn 19eg Mehefin, 2009.

Os oes gan eich rhieni/gwarcheidwaid unrhyw gwestiynau, neu os am wybod mwy, croeso i chi gysylltu â ni ar 556648.

Cymunedau yn Gyntaf Oldford yn croesawu Gweithiwr Datblygu newydd!
Pleser yw estyn croeso i Julie Hughes ein Gweithiwr Datblygu newydd ar dîm Cymunedau yn Gyntaf Oldford. Cychwynnodd Julie ar ei swydd newydd ddydd Llun 27ain Ebrill, ac mae wedi setlo i'w swydd newydd yn dda iawn. Gellir cysylltu â Julie yn Swyddfa Cymunedau yn Gyntaf Oldford, Ysgol Babanod Oldford, ond ei nod yw treulio amser allan yn y gymuned yn gweithio ar brosiectau sydd eisoes mewn bodolaeth yn ogystal â rhai newydd.

Helo. Julie Hughes yw f'enw i, a 'dwi newydd gael fy mhenodi i swydd Gweithiwr Datblygu Cymunedol ar raglen Cymunedau yn Gyntaf Oldford. Fy rôl i yw cynorthwyo Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Oldford i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu am y cyfnod 2008 - 2011. Dros y chwe blynedd diwethaf, rwyf wedi gweithio fel Swyddog Datblygu Cymunedol mewn dwy o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn Wrecsam. Yn ystod y cyfnod hwn, 'dwi wedi llwyddo i ddatblygu dealltwriaeth dda o gymunedau a sut maent yn gweithio. Trwy ennyn eich diddordeb chi, drigolion Oldford, asiantaethau partner a darparwyr gwasanaethau lleol, fy ngobaith yw helpu chi i gyflawni eich nodau ac amcanion fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu.
Eich cymuned chi yw Oldford! Felly, pam na wnewch chi godi'r ffôn, neu alw heibio'r swyddfa i'm gweld i neu un o'r tîm gydag unrhyw syniadau sydd gennych ar sut y gallwn helpu chi i wella'ch cymuned chi.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi.

Cysylltwch â ni ar: 556648
E-bost: ocf@powys.gov.uk

Diwrnod Tacluso Oldford
Dydd Sadwrn 6ed Mehefin
Maes Parcio Prince of Wales Drive
11 – 2pm

- **Dewch i ddefnyddio ein teclynnau hel sbwriel, menig a bagiau!**
- **Gallwch fenthyg ein trolis i symud eitemau mawr.**
- **Gallwch helpu gwella amgylchfyd eich cartref.**
- **Lluniaeth am ddim ar gael.**

Cofiwch os oes gennych unrhyw eitemau nad oes eu heisiau bellach, sydd mewn cyflwr da, ffoniwch gynllun Dodrefn Phoenix ar 01686 622717

Hel Sbwriel ar Oldford
Roedd y digwyddiad cyntaf erioed i hel sbwriel ar Oldford yn llwyddiant mawr er gwaetha'r tywydd drwg, a daeth mwy na 16 o wirfoddolwyr ynghyd i gasglu 10 llond bagiau bin o sbwriel ar y diwrnod!
Diolch i bawb ddaeth i helpu ar y diwrnod!
Am fwy o wybodaeth ar y digwyddiadau hyn, ffoniwch 556648.

PACT
Cynhelir cyfarfod nesaf PACT (Heddlu a Chymunedau gyda'i Gilydd):
Nos Lun 6ed Gorffennaf, am 7 o'r gloch yn Ysgol Babanod Oldford

Gweithgareddau Haf
Yn cychwyn 22ain Gorffennaf. Yn rhedeg bob nos Fercher tan 26ain Awst.
Mae Tîm Plismona Bro'r Trallwng a Chymunedau yn Gyntaf Oldford yn cynnal Gweithgareddau Haf ar gaeau chwarae Ysgol Maesydre.
Mae'r gweithgareddau i gyd AM DDIM, gwyliwch allan am fwy o wybodaeth!
Bydd ffurflenni caniatâd rhieni'n cael eu dosbarthu i holl ysgolion yr ardal.

Clwb Gwaith Cartref

Bob dydd Llun rhwng 4 – 6 o'r gloch yn Ystafell Gymunedol Clwyd Alyn
I Blant 8 – 16 oed
Dewch draw i fwynhau defnyddio'r cyfrifiaduron i wneud eich gwaith cartref! Cyntaf i'r felin am y lleoedd sydd ar gael.
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 556648

Ariennir gan Cymunedau@EiGilydd

Sioe Deithiol Ymwybyddiaeth am Wastraff
Dydd Gwener 12fed Mehefin – Y Gyfnewidfa Ŷd

Bydd Cyngor Powys yn dechrau gwasanaethau casglu bwyd ac ailgylchu wythnosol newydd y flwyddyn nesaf, fel rhan o gynllun mawr i leihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.
Bydd staff Adran Gwastraff Cyngor Sir Powys ar gael i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch gwastraff ac ailgylchu, ac i roi gwybodaeth i chi ynghylch newidiadau'r flwyddyn nesaf.
Cysylltwch â Gwastraff Powys ar: 0845 602 7035

Oasis
Cyfle i fwynhau cawl cartref gyda rholyn a chwmni da! Croeso i bawb!
Dydd Mercher 24ain Mehefin, 29ain Gorffennaf – 6.30 o'r gloch
Ysgol Babanod Oldford. Pris swper yw £1.00
Bydd Oasis yn rhedeg nos Fercher olaf bob mis.
Am fwy o fanylion, ffoniwch 01938 552781

Ysgol Babanod Oldford
"Yr ysgol wrth galon y gymuned" – Estyn

Mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill statws Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro. Llongyfarchiadau i'r disgyblion, y rhieni a'r staff sy'n cyfrannu at y wobr bwysig hon. Mae'n golygu cyrraedd safonau uchel cyn cael derbyn y statws, ac mae'r ffaith fod yr ysgol wedi cyflawni hyn tair gwaith mewn chwe blynedd yn rhagorol.
Rydym hefyd wedi llwyddo i gyrraedd Cam dau ar gynllun Ysgolion Iach Powys. Mae ein ciniawau **Pobl Bwysig Iawn** misol a chlwb swper OASIS wedi cyfrannu at gyrraedd y safon yma. Bydd yn cael ei gyflwyno yn y cinio nesaf ar 25ain Mehefin.
Creaduriaid y môr a môr-ladron oedd ein thema yng ngharnifal y Trallwng eleni! Diolch i'r gymuned am ei chefnogaeth.
Diwrnod mabolgampau – dydd Gwener 26ain Mehefin – dewch draw i fwynhau prynhawn hwyl, o 1 o'r gloch ymlaen.

Cynllun Grant Gwisg Ysgol 2009 – 2010
Cychwynnwyd y cynllun hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005 i gynorthwyo teuluoedd i brynu gwisg ysgol. Anelir y cynllun at ddisgyblion sy'n symud i ysgol uwchradd, gan mai dyma'r amser sy'n golygu costau sylweddol i rieni.
Mae grantiau o hyd at £100 y disgybl ar gael i blant sy'n mynd mewn i flwyddyn 7, lle mae incwm blynyddol y teulu yn £16,040 neu'n llai.
Bydd taflenni gyda manylion y cynllun ar gael yn yr ysgolion cyn diwedd Mehefin 2009.
Dylid gwneud ceisiadau am y grant i'r Awdurdod Addysg Leol.

Tenantiaid Oldford a Digwyddiad Cae Chwarae Scansis

Dydd Sadwrn 13 Mehefin 11.00 yb – 3.00 yp Ar gae chwarae Scansis

Hwyl i'r teulu cyfan!
Sgiliau Syrcas, Pêl-droed 5 bob ochr, Pêl-rwyd, Teganau gwynt mawr, **Gweithdy Graffiti,**
Diffoddwyr Tân Ifanc Y Trallwng, Prosiect creu Llwybr ffynci, **Tombola,** Raffl, Dal Hwyaden,
Stondin Coconyts, Stondinau, Barbeciw, **Drymio Affricanaidd**
PA gan Alan Crowe
Bydd y timau buddugol yn derbyn medalau!

Stondin i drigolion /mudiadau gwirfoddol: £5.00

Stondin i fusnesau: £10.00

Hoffech chi helpu gyda'r digwyddiad cyffrous hwn?

Mae angen gwirfoddolwyr i helpu paratoi ar gyfer y digwyddiad ac i helpu yn ystod y dydd, naill ai drwy redeg stondinau neu i gynorthwyo gyda'r cystadlaethau pêl-droed a phêl-rwyd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu, ond ddim ar gael ar y diwrnod, beth am roi gwobr ar gyfer un o'r stondinau!

Am fwy o wybodaeth, neu i archebu stondin, cysylltwch â Liz ar 555269

Clwb Garddio
Rydym yn chwilio am bobl i ymuno â chlwb garddio ar Oldford. Gall un o brosiectau cyntaf y clwb fod i greu gardd i fywyd gwyllt i bawb gael ei mwynhau.
Gall y clwb hwn hefyd eich helpu i wella'ch gardd gyda sgiliau newydd ac i gwrdd â phobl newydd!
Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Julie ar 556648 neu gallwch alw yn Swyddfa Cymunedau yn Gyntaf Oldford i gael sgwrs.

Dyddiad cau ar gyfer rhifyn nesaf Llais Oldford yw: **Dydd Llun 27 Gorffennaf 2009.**
Os hoffech chi rannu eich newyddion neu straeon gydag Oldford, **ffoniwch ni ar 556648**

Beth sydd ymlaen yn y Trallwng.....

Gŵyl Trafnidiaeth
20 a 21 Mehefin, Maes Sioe Castell Powis

Wythnos Twristiaid Lleol
3 – 12 Gorffennaf, bydd llawer o dai, eglwysi a gerddi lleol ar agor i'r cyhoedd, a bydd teithiau cerdded, cyflwyniadau ac arddangosiadau ar gael!

Sioe Awyr Y Trallwng
18 Gorffennaf, Maes Awyr Y Trallwng

Gŵyl Canu Gwlad
19 Gorffennaf, Maes Sioe Castell Powis

Am fwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y Trallwng, ewch at....
www.whatsonwelshpool.co.uk

Prynhawn Coffi
Dydd Iau 4 Mehefin 2 yp – 4 yp
Cynllun Gweithredol Ffrwythau a Llysiau Potty Potato, Tŷ Emerald, Ysgol Babanod Oldford

Dewch i fwynhau paned a sgwrs hamddenol gyda Julie, Gweithiwr Datblygu newydd Cymunedau yn Gyntaf Oldford a thrafod unrhyw syniadau neu awgrymiadau sydd gennych!
Cystadleuaeth AM DDIM i ennill bag ffrwythau neu lysiau neu becyn crefftau!
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar 01938 556648

Cynllun Cydweithredol Ffrwythau a Llysiau Potty Potato
Cofiwch archebu eich bagiau ffrwythau a llysiau gan y cynllun.
Dim ond £3.00 am fag llawn
Dim ond £2.00 am hanner bag
75c am Hanner dwsin o Wyau maes
£1.50 am Ddwsin o Wyau maes

Dangos eich doniau creadigol!
Mae pecynnau o ddeunyddiau crefftau ffynci ar werth gan Chwarae Sir Drefaldwyn am brisiau rhad!
Cysylltwch â Liz ar 555269

Undeb Credyd Robert Owen

Cofiwch gysylltu â ni ynghylch benthyciadau cost isel ar gyfer popeth, yn amrywio o dalu biliau hanfodol i wyliau!
Ffoniwch ni ar: 016886 623741
Neu ewch at ein gwefan: www.romcul.co.uk

Cystadleuaeth Dylunio Poster!

Mae llawer o bobl ar Oldford yn berchen ar gŵn, ac mae pawb yn gwybod fod cŵn yn anifeiliaid anwes ffyddlon ac annwyl iawn. Ond nid pawb sy'n gwybod sut i ofalu amdanynt yn iawn.
Hoffech chi ein helpu ni i ledu'r gair ynghylch pa mor bwysig mae glanhau ar ôl eich ci?

Beth am ddylunio poster lliwgar trawiadol i ddweud wrth bobl y dylen nhw ddefnyddio bagiau i gasglu baw eu cŵn a'i roi yn y biniau sydd ar gael!
Mae'r categorïau oedran gwahanol fel a ganlyn:
7 ac iau
8 – 11
12 – 16
Rhowch eich enw a'ch oedran ar gefn eich poster a'i gyflwyno i Swyddfa Cymunedau yn Gyntaf Oldford yn Ysgol Babanod Oldford erbyn dydd Mawrth 30 Mehefin.

Bydd enillydd o bob categori oedran, a rhoddir y posteri hynny ar y pedwar hysbysfwrdd sydd ar ystâd Oldford.
Bydd y poster buddugol yn cael ei gynnwys yn rhaglen Diwrnod Hwyl y Trallwng 2009, a bydd yn ennill gwobr hefyd!
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch ni ar 556648.

Y Get Going Gang

Cynllun Chwarae'r Haf	21 Gorffennaf – dydd Gwener 21 Awst
10yb – 3yp	Caban Sgowtiaid Y Trallwng
4 – 15 oed	£2.50 y plentyn y diwrnod.

Celf a chrefft, tripiau ac ymweliadau, chwaraeon, gemau, trip i'r sinema a mwy.
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Liz ar 555269

Sut i aros yn ddiogel yn yr haul! Mae llosg haul yn anghyfforddus a gall dyblu'r risg o gael canser o'r croen!

- Dylid gwisgo dillad ysgafn, llac cymaint ag sy'n bosib.
- Mae cantel mawr ar het yn diogelu'r llygaid, clustiau, yr wyneb a chefn eich gwar yn erbyn yr haul – y mannau sy'n dueddol o ddioddef o losg haul.
- Ceisiwch wisgo sbectol haul sy'n atal 99 – 100% o belydriad uwchfioled
- Gall sbectol haul hefyd helpu diogelu'ch llygaid rhag niwed gan yr haul. Nid oes rhaid i'r sbectol haul delfrydol fod yn ddrud, ond dylen nhw atal 99 – 100% o belydriad UVA ac UVB
- Cofiwch gymryd mwy o ofal gyda phlant
- Mae croen plant ifanc yn dyner iawn, ac yn cael ei ddifrodi'n hawdd iawn gan yr haul
- Dylid cadw babanod dan chwe mis oed allan o'r haul, yn enwedig pan fydd ar ei boethaf
- Dylid defnyddio eli haul ffactor 15+ bob amser

Diwrnod o Hwyl Y Trallwng 2009

Dydd Sadwrn 26 Medi
10.30 yb – 4.30 yp
Caeau Ysgol Maesydre

Mynediad am ddim a gweithgareddau am ddim, gan gynnwys:

- Cwrs Bynji
- Cwrs Ymosod y Fyddin
- Trampolîn X-Treme
- Arddangosfa Hebogyddiaeth Canolbarth Cymru
- Arddangosfa Gwasanaethau 999
- Bws y Joli Jyngl
- Gweithdai
- Gladiatoriaid Pwmpiadwy

Fel arfer, nid yw'n bosib trefnu digwyddiad fel hyn heb gymorth gwirfoddolwyr. Os hoffech wirfoddoli wrth inni baratoi ar gyfer y digwyddiad neu ar y diwrnod ei hunan, cysylltwch â ni ar 556648.

Cyhoeddiadau.....
Bachgen bach! Llongyfarchiadau i Jane a Paul ar enedigaeth Rory bach!

Pen-blwydd hapus yn 60 oed i Hazel Evans. Mwynhewch eich diwrnod!

Cyfarchion Sul y Tadau Dave! Cariad oddi wrth Carl, Jayne, Sharon, Sarah a Laura

Bwydo Ieir Bach yr Haf

1. Tynnwch lun blodyn mawr ar gerdyn lliw, a'i dorri allan.
2. Gludwch gaead potel blastig yng nghanol y blodyn.
3. Gludwch welltyn ar gefn y blodyn, a'i osod mewn pot blodau neu wely blodau yn yr ardd.
4. Gwnewch gymysgedd o siwgr a dŵr, a socian gwlân cotwm yn y cymysgedd yma. Wedyn rhowch y gwlân cotwm tu fewn i gaead y botel.

Mae hwn yn weithgaredd gwych i blant, ac mae hefyd yn ychwanegu lliw at eich potiau a gwelyau blodau, ac o feddwl fod y nifer o ieir bach yr haf yn lleihau, gall pawb helpu eu hannog yn ôl i'n gerddi.